

DELED DY DEYRNAS

NOVENA



MYFYRDODAU AR 1 PEDR

ARCHESGOB

Justin Welby

Thy Kingdom Come: Novena
(Reflections on 1 Peter by Archbishop Justin Welby)
Copyright © 2022 by Thy Kingdom Come.
Used with permission. All rights reserved worldwide.

Mae'r adnodau o 1 Pedr a ddefnyddir yn y rhifyn hwn yn cael eu cymryd o'r
Beibl Cymraeg Newydd (Argraffiad Diwygiedig).
Testun o Y Beibl Cymraeg Newydd (Argraffiad Diwygiedig)
© Y Gymdeithas Feiblaidd Frytanaidd a Thramor 2004.
Defnyddiwyd drwy ganiatâd.
Cedwir pob hawl.

Darluniau gan Anna Heslop.
Dilynwch Anna ar Instagram  miss_print_19

Published 2022 by Church House Publishing | www.chpublishing.co.uk
Church House Publishing,
Church House,
Great Smith Street,
London SW1P 3AZ

Mae Biblica, cymdeithas ryngwladol y Beibl, yn darparu Gair Duw i bobl drwy gyfieithu a chyhoeddi'r Beibl, ac ymgysylltu â'r Beibl yn Affrica, Asia'r Môr Tawel, Ewrop, America Ladin, y Dwyrain Canol a Gogledd America. Drwy ei waith byd-eang, mae Biblica yn ymgysylltu pobl â Gair Duw fel bod eu bywydau'n cael eu trawsnewid drwy eu perthynas â Iesu Grist. www.biblica.com

Printed in the UK by Core Publications Ltd.

Scan here
to read
1 Peter in full





Yn y dyddiau rhwng yr Esgyniad a'r Pentecost, mae wedi bod yn arfer gan lawer o Gristnogion, ers canrifoedd lawer, i efelychu'r credinwyr cyntaf hynny o ran ffocws eu gweddïau. Cyfarwyddyd olaf Crist i'w ddisgyblion ar ddiwrnod Ei Esgyniad yw *'disgwyl am yr hyn a addawodd y Tad'* (Actau 1:4).

¹² Yna dychwelsant i Jerwsalem o'r mynydd a elwir Olewydd, sydd yn agos i Jerwsalem... ¹³ Wedi cyrraedd, aethant i fyny i'r oruwchystafell, lle'r oeddent yn aros... ¹⁴ Yr oedd y rhain oll yn dyfalbarhau yn unfryd mewn gweddi, ynghyd â rhai gwragedd a Mair, mam Iesu, a chyda'i frodyr.

Actau 1:12-14

Mae'r cyfarwyddyd i aros am yr Ysbryd Glân mor bwysig oherwydd, heb ei bresenoldeb grymusol, mae'n amhosibl bod yn dyst ffyddlon i Grist. Mae angen rhodd y Tad arnom ni er mwyn i ni fod y math o bobl y mae Crist yn galw ni i fod. Nid er mwyn rhyw brofiad preifat y mae'r Ysbryd, ond er mwyn ein bywydau ni dros Grist yn y byd.

Mae *Deled Dy Deyrnas* yn annog pob un ohonom i gofio am bum person penodol yn ystod y dyddiau hyn; fel bod rhodd y Tad yn gweithio trwom ni er eu mwyn hwy, ond hefyd yn cyffwrdd â'u bywydau hwy. Rwy'n eich annog yn awr i dreulio ychydig funudau yn ystyried pwy fyddwch chi'n gweddïo drostynt yn ystod y dyddiau i ddod, a'ch bod efallai yn gwneud nodyn o'u henwau gyferbyn.

Mae'r Novena hwn yn ceisio bod o gymorth wrth i chi aros am y rhodd a addawodd y Tad, drwy ganolbwyntio ar naw adnod benodol yn llythyr cyntaf Sant Pedr – un o'r rhai a oedd yn bresennol yn yr oruwchystafell honno. Bob dydd, byddwn yn dewis un o'r adnodau hynny ac yn ceisio cael ein harwain ganddi. Mae 1 Pedr yn un o'm hoff lyfrau, ac mae'n darparu'r themâu ar gyfer Cynhadledd Lambeth yr haf hwn. Mae'n llyfr sy'n agor ein calonnau i Dduw ac yn codi ein golygon i deulu byd-eang Duw.

Rwy'n hynod ddiolchgar i *Anna Heslop*, sydd wedi creu'r delweddau mwyaf trawiadol i gyd-fynd â'r adnodau dyddiol. Gweddïaf y bydd y geiriau a'r lluniau hyn gyda'i gilydd yn creu lle i chi aros am y rhodd a addawodd y Tad.

1.

2.

3.

4.

5.

1 PEDR 1:1-2

¹ Pedr, apostol Iesu Grist, at y dieithriaid sydd ar wasgar yn Pontus, Galatia, Capadocia, Asia a Bithynia, ² sy'n etholedigion yn ôl rhagwybodaeth Duw y Tad, trwy waith sancteiddiol yr Ysbryd, i fod yn ufudd i Iesu Grist ac i'w taenellu â'i waed ef.

Gras a thangnefedd a amlhaer i chwi!

Mae bod yn Gristion yn golygu cael eich pennu fel rhywun sy'n 'wahanol'. Yn ei Lythyr Cyntaf, mae'r apostol Pedr yn ysgrifennu at bobl wedi'u halltudio, cymunedau a oedd yn byw fel dieithriaid a thramorwyr yn Asia Leiaf. Roedd y bobl hyn yn gwybod sut beth oedd bod yn estroniaid mewn cymdeithas – yn cael eu poenydio a'u gwrthod.

Ond mae Pedr hefyd yn ysgrifennu at bobl wedi'u halltudio mewn ystyr wahanol: fel Cristnogion, rydyn i'n treulio ein bywydau ar y Ddaear yn alltud, wedi'n gwahanu oddi wrth ein cartref tragwyddol yn y Nefoedd gyda'r Tad.


Mae bod yn Gristion yn golygu meddu ar hunaniaeth wahanol i bobl eraill: yn hytrach na diffinio ein hunain yn ôl ein teulu, ein cenedligrwydd, faint o arian sydd gennym ni, neu unrhyw un o'r pethau eraill y tybiwn sy'n gwneud ni yn ni, rydyn ni, y rhai a fedyddiwyd, 'yng Nghrist', gwirionedd dwys a dderbyniwyd ac sydd eto i'w wireddu'n llawn. Gelwir arnom i ganfod ein hunaniaeth o safbwynt person Iesu Grist.

Mae Pedr yn siarad â'r rhai hynny sy'n alltud ond sydd wedi'u dewis gan Dduw. Efallai bod y cymunedau hyn yn cael eu dilorni ar y Ddaear, ond maen nhw wedi eu sancteiddio – yn gysegredig – gan yr Ysbryd. Mae Cristnogion yn bobl sy'n ystyried nad grymoedd ac arweinwyr daearol yw ffynhonnell eithaf awdurdod: rydyn ni'n ufudd i Iesu.

Dim ond drwy rodd yr Ysbryd Glân y mae hyn oll yn bosibl.

Wrth i ni weddio'n daer i eraill droi eu calonnau a'u meddyliau tuag at Grist, gadewch i ni ddechrau drwy ofyn: sut rydyn ni'n byw mewn ffordd sy'n ein gwneud ni'n wahanol? A yw ein tystiolaeth yn ennyn chwilfrydedd mewn pobl am ffydd, yn hytrach na pheri iddynt droi eu cefn arnynt? Sut ydw i'n byw fy mywyd yn wahanol oherwydd y Newyddion Da am Iesu Grist, a sut mae eraill yn gweld ac yn clywed hynny?

Mae Pedr yn siarad â chymunedau go iawn sy'n wynebu problemau go iawn, ond mae'n eu cyfarch yng ngoleuni gras a heddwch helaeth Duw. Boed i chi gyfleu'r gras a'r heddwch hwnnw i bawb a ddaw ar eich traws wrth i chi ddechrau'r daith hon heddiw.



1 PEDR 1:12

¹² Datguddiwyd i'r proffwydi hyn nad arnynt eu hunain ond arnoch chiwi yr oeddent yn gweini wrth sôn am y pethau sydd yn awr wedi eu cyhoeddi i chiwi gan y rhai a bregethodd yr Efengyl i chiwi drwy nerth yr Ysbryd Glân, a anfonwyd o'r nef. Pethau yw'r rhain y mae angylion yn chwenychu edrych arnynt.

Mae pawb yn ceisio ystyr i'w fywyd. Mae pob un ohonom yn mynd drwy fywyd yn chwilio am rywbeth. Efallai ein bod yn deisyfu i gael ein caru, neu ein derbyn, neu i gael ein gweld fel rydyn ni go iawn. Efallai ein bod yn deisyfu i ddeall pwy ydyn ni ein hunain, a pham ein bod ni yma ar y Ddaear. Dymunwn fod yn agosach at ein Duw a'n creawdwr, hyd yn oed os nad ydyn ni'n ymwybodol o hynny. Mae'r awydd hwn am ystyr yn bodoli oherwydd dyma sut y gwnaeth Duw ni. Dim ond ei ystyr ef sy'n bodloni'r chwilio. *'Ti a'n creait ni i Ti Dy Hun, ac anniddig yw ein calon hyd oni orffwysu ynot Ti,'* yng ngeiriau enwog Awstin Sant.

Mae pawb sydd erioed wedi byw wedi profi'r dyheu ingol hwn. Yn yr adnod heddiw, mae Pedr yn sôn am y proffwydi. Roedden nhw'n chwilio hefyd: *'holi yr oeddent at ba amser neu amgylchiadau yr oedd Ysbryd Crist o'u mewn yn cyfeirio' (1 Pedr 1:11)*. Er nad oedd Crist wedi'i eni eto, roedd yr Ysbryd Glân oddi mewn iddynt, yn eu galluogi i ragweld rhodd fwyaf Duw, Crist Iesu – Duw gyda ni.

Bellach, mae'r person hwnnw wedi ei ddatguddio, y newyddion da wedi'i gyhoeddi; a deallwn ein bod yn cael ein gwasanaethu gan y proffwydi hynny a ymdrechodd i fod yn nes at Dduw, dros 2,500 o flynyddoedd yn ôl. Cymaint yw rhyfeddod Duw fel ein bod ni nid yn unig yn rhannu ei addewid â'r rhai o'n cwmpas, ond hefyd yn creu cadwyn a allai gynorthwyo'r rhai sy'n chwilio ymhell ar ôl i ni fynd.

A'r newyddion gwirioneddol syfrdanol yw bod yr hyn rydyn ni'n dyheu amdano wedi cael ei roi i ni'n ddiamod. Mae'r Duw rydyn ni'n ei geisio nid yn unig wedi dod atom ac wedi byw yn ein plith; ond bu farw drosom ni! Daethpwyd â'r newyddion da i ni gan yr Ysbryd Glân, a gafodd ei anfon o'r nefoedd! Mae hyd yn oed yr angylion yn dyheu ac eisiau edrych yn fanylach ar ryfeddod ein hiachawdwriaeth.

Drwy'r rhodd hon, caiff pawb eu denu at iachawdwriaeth. Chwiliodd y proffwydi amdano. Mae'r angylion yn dyheu i edrych arno! Mae Duw yn gwybod ein bod hi'n dyheu am Ei bresenoldeb, ond mae ein dyhead ni amdano ef yn pylu'n ddim o'i gymharu â'i ddyhead ef amdanom ni. Dyna pam yr anfonodd Ei fab i ni. Dyna pam mae'n rhoi Ei ysbryd i ni.

Gan ddwyn i gof y pump sy'n ganolbwynt i'ch gweddïau, beth yw eich canfyddiad chi o'u chwilio? Sut gallech chi daflu goleuni, fel y gwnaeth proffwydi'r Hen Destament, sy'n gymorth i gyfeirio pobl at y trysor maen nhw'n ei geisio? Sut gall eich chwilio chi – a fydd yn parhau gydol eich oes – gyfeirio mwy o bobl tuag at y Duw sy'n ymestyn ei law i ni, ac yn gobeithio y gafaelwn ni ynddi hi?



1 PEDR 2:2

² Fel babanod newydd eu geni, blysiwch am laeth ysbrydol pur, er mwyn ichwi drwyddo gynyddu i iachawdwriaeth.

Mae babanod, sy'n cael eu geni i fyd newydd rhyfedd a llym, yn gwbl ddbynnol ar y rhai sy'n rhoi gofal iddynt. Mae eu hanghenion a'u greddfau yn sylfaenol iawn – bwyd, cynhesrwydd, cariad. Yn ddiymgeledd ac yn wan, maen nhw'n ddbynnol ar eraill i gael y pethau hyn. Cofiwn am y darlun o Grist yn blentyn, y Duw a wnaeth ei hun yn fach ac yn ddiymgeledd er ein mwyn ni sy'n wirioneddol ddiymgeledd hebddo Ef. Mae'r rhai hynny y mae Pedr yn ysgrifennu atynt hefyd yn byw yn y byd rhyfedd a llym hwn, byd lle rydyn ni'n mynd ar gyfeiliorn, lle mae'r unig gysur yn dod gan Dduw.

Ond mae babanod yn tyfu. Y gobaith yw y byddant yn dod yn aelodau doeth, caredig a chynhyrchiol o gymdeithas – ond dim ond drwy faeth y rhai sy'n gofalu amdanynt. Mae 'llaeth' yn y Beibl yn aml yn cynrychioli bendith a digonedd: mae mam yn rhoi ei llaeth o'i gwirfodd, o gariad, pryd bynnag y mae ei angen ar y plentyn, yn ddiamod, heb angen ei 'haeddu' na'i 'deilyngu'.

Mae'n ffynhonnell bywyd, yn arwydd o ofal, ond mae hefyd yn hawdd ei dreulio. Os rhoddwch chi gig i blentyn newydd-anedig, nid oes ganddo'r dannedd i'w gnoi.

Felly hefyd, rydyn ni'n cael ein geni o'r newydd wrth ddod at Grist. Dechreuwn fywyd newydd fel plant Duw. Mae Duw yn rhoi lle i ni dyfu, i aeddfedu, i dderbyn maeth – proses sy'n parhau drwy gydol ein bywydau. Mae'r llaeth hwn yn rhywbeth nad ydyn ni byth yn mynd yn rhy hen iddo, oherwydd mae'r hyn sy'n ein cynnal ar ddechrau'r daith yn gwneud hynny drwy gydol ein bywydau fel Cristnogion.

Beth yw'r llaeth hwn, sy'n ein cryfhau ac yn ein bwydo i dyfu yn y bywyd newydd hwn?

Rwy'n credu mai gair Duw yw e – drwy'r ysgrythur, a thrwy alwad yr Ysbryd Glân i'n calonnau. Rydyn ni'n fregus, ond mae Ei air yn ein hatgyfnerthu. Rydyn ni'n newynog ac yn sychedig, a dim ond Ef all ein bodloni. Rydyn ni wedi'n hamgylchynu gan gasineb ac ymraniadau, ond mae ei fendith helaeth yn dangos y posibilrwydd o gariad a llawenydd inni.

Drwy brofiad y cyfan a roddwyd i'n hatgyfnerthu, gallwn alw eraill, a gadael iddynt gael eu meithrin yn eu tro. Gallwn ledaenu cariad Duw fel bod modd i'r rhai o'n cwrpas hefyd gael eu hatgyfnerthu a'u cysuro gan ei air. Mae'r hyn sydd ei angen fwyaf ar y pum cyfaill hynny a gyflwynwyd gennym ni i Dduw, yn cael ei roi gan Dduw.

Mae Crist yn galw arnom ni i fod fel plant, i bwysu nid ar ein hunain ond ar addewid Duw, person yr Iesu, a phresenoldeb yr Ysbryd. Boed i ni fod fel plant, yn ein hangen syml am Dduw, a'n dibyniaeth arno, i'n hatgyfnerthu a'n magu, wrth i ni dyfu tuag at Ei iachawdwriaeth.



1 PEDR 2:5

5 Yr ydych chiwithau hefyd, fel meini bywiol, yn cael eich adeiladu yn dŷ ysbrydol, i fod yn offeiriadaeth sanctaidd, er mwyn offrymu aberthau ysbrydol, cymeradwy gan Dduw trwy Iesu Grist.

Mewn adeilad, mae pob bricsen yn hanfodol. Mae Crist yn dweud bod pob un ohonom yn garreg fyw yn ei eglwys, yn ddibynnod ar ein gilydd ac yn chwarae rhan sylfaenol yn yr adeiladwaith.

Pan fyddwch chi'n adeiladu rhywbeth, rydych chi'n dechrau gyda'r sylfaen. Ni fydd unrhyw adeilad yn sefyll os nad yw'r sylfeini'n ddwfn ac yn gadarn. Fel Cristnogion, fel cerrig byw yn adeilad Duw, mae gennym un sylfaen: Iesu Grist. Y gwahaniaeth rhwng bod yn gerrig byw yn yr Eglwys, a phren marw yn ein hadeilad ein hunain, yw'r angen i adnewyddu, dwysáu a dathlu ein sylfeini yng Nghrist bob dydd – neu fel arall mae perygl i ni gael ein gwahanu oddi wrth yr hyn sy'n ein cynnal ni. Unwaith y byddwn ni'n llacio gafael ar yr Iesu fel ein sylfaen drwy gydol ein bywydau, rydyn ni'n adfeilio.

Yn y manau hynny ble mae Pedr yn llythyr, byddai adeiladau wedi bod yn ffordd i bobl ddangos eu grym a'u statws. Yn debyg iawn i heddiw, byddai pobl yn adeiladu cofadeiliau cymhleth, strwythurau ffisegol a oedd yn dynodi llwyddiant, cryfder a statws cymdeithasol. Ond roedd y Cristnogion yr ysgifennodd Pedr atynt yn ddi-rym. Nid oedd modd iddynt gystadlu â'r symbolau rhwysgfawr hyn, na dathlu eu ffydd yng ngrym Duw drwy adeiladu addoldai trawiadol.

Gan deimlo hyn i'r byw, ymddengys nad oedd ots gan Pedr os na allwch adeiladu temlau enfawr neu godi meini mawr i glodfori Duw. Nid yw Duw yn poeni am allanolion o'r fath. Mae'r meini y mae Ef eu heisiau yn bethau *'gwrthodedig gan bobl ond etholedig a chlodfawr gan Dduw'* (1 Pedr 2:4). Mae Duw eisiau'r alltudion, y rhai nad oes neb eu heisiau, y rhai nad oes neb yn eu caru, y gwrthodedig. Dyma'r bobl y mae eu bywydau yn gallu tystio i'w fawredd. Mae ein bywydau, ein cyrff, craidd ein bodolaeth, yn dod yn dyst i bŵer trawsnewidiol Duw sydd â lle i bob un ohonom. Ac mae hyn yn digwydd wrth i ni gael ein cyd-adeiladu'n dŷ ysbrydol i Dduw.

Mae bod yn garreg fyw yn golygu rhoi ein bywydau i ogoneddu Duw, yn hytrach nag atgyfnerthu ein gogoniant neu'n grym ein hunain. Y nod yw trawsnewid y ffordd rydyn ni'n deall grym a statws. Mae'n golygu mynd i'r union le mae Duw angen i ni fod. Mae'n ymwneud â thrawsnewid a chael eich trawsnewid – o gael ein hanwybyddu, ein hesgeuluso a'n gormesu – i fod yn rhan o gynllun dwyfol Duw. Mae'n ymwneud ag ymroi i iaith byw fel pobl Dduw. Ac mae pob person yn hanfodol yn hyn o beth. Mae gan y pump sydd yn eich gweddïau gerbron Duw le hanfodol yn ei adeilad. Dim ond yr Ysbryd Glân all wneud hyn.

Heddiw, rydyn ni'n myfyrio ynghylch sut mae ein bywydau yn gogoneddu Duw ac yn tystio i'w ras, mewn ffordd na allai unrhyw beth rydyn ni'n ei adeiladu ein hunain ddod yn agos ato. Gadewch i ni weddio am sylfeini dyfnach a chadarnach yn yr Iesu sy'n ein cadw'n sefydlog, fel y gall yr Ysbryd Glân ein hadeiladu ni'n annedd er gogoniant iddo.



1 PEDR 2:9-10

⁹ Ond yr ydych chi yn hil etholedig, yn offeiriadaeth frenhinol, yn genedl sanctaidd, yn bobl o'r eiddo Duw ei hun, i hysbysu gweithredoedd ardderchog yr Un a'ch galwodd chi allan o dywyllwch i'w ryfeddol oleuni ef: ¹⁰ "A chi gynt heb fod yn bobl, yr ydych chi awr yn bobl Dduw; a chi gynt heb dderbyn trugaredd, yr ydych chi awr yn rhai a dderbyniodd drugaredd."

I mi, mae'r adnoddau hyn yn 1 Pedr yn rhai o'r darnau mwyaf grymus yn yr ysgrythurau. Pobl a gafodd eu cau allan bellach yn cael eu croesawu. Y rhai a fu'n alltud bellach yn ddetholedig. Y rhai a ddilornwyd bellach wedi'u sancteiddio, y rhai a wrthodwyd yn cael eu caru.

Mae'r rhai y mae Pedr yn ysgrifennu atynt yn gwybod sut beth yw cael eu gwrthio i'r ymylon, eu gormesu a'u herlid oherwydd eu ffydd. Pobl yw'r rhain sydd heb statws – ac eithrio yng ngolwg Duw. Maen nhw'n anhysbys, yn anweledig ac yn ddibwys. Ac eithrio i Greawdwr y bydysawd.

Yn yr adnod hon, rydyn ni'n cael ein galw – efallai'n cael ein herio – i weld ein hunain nid fel y mae'r byd yn ein gweld ni, ond fel y mae Duw yn ein gweld ni. Fe'n gelwir i farnu ein hunain nid yn ôl y gwerthoedd hynny sydd i bob golwg o bwys i'r byd – statws, cyfoeth, pŵer – ond yn ôl cariad diderfyn Duw yng Nghrist. Oherwydd gwaith Duw er ein mwyn ni yng Nghrist, cawn ein galw'n deilwng, yn annwyl, yn ddetholedig. Cewch eich galw'n deilwng, yn annwyl, ac yn ddetholedig yng ngolwg Duw.

Dyma sut rydyn ni'n dysgu bod yn bobl Dduw, yn bobl 'o'r eiddo Duw ei hun', yn hytrach na phobl dan ddyled i'r byd hwn. Mae ein statws ni yn cael ei nodweddu gan ddigonedd, gobaith, ffyddlondeb a chariad. Yr hyn y mae Crist wedi'i wneud yw rhoi ymdeimlad o werth tragwyddol i bobl a oedd wedi clywed nad oedd unrhyw werth iddynt. Pan fyddwn ni'n meddwl ein bod ni'n ddiwerth, yn ddibwys, yn fethiant, neu'n embaras, mae gair Duw yn ein hatgoffa pwy ydyn ni mewn gwirionedd: pobl Duw ei hun.

Mae hwn yn gariad sy'n ein trawsnewid. Ond i bwrpas. Oherwydd gyda'r rhodd daw galwad – 'i hysbysu gweithredoedd ardderchog yr Un a'ch galwodd chi allan o dywyllwch i'w ryfeddol oleuni ef'. Rydyn ni'n cael ein trawsnewid i fod yn gyfryngau trawsnewid Duw; mae ein llygaid ni'n cael eu hagog fel ein bod ni'n gallu gwneud i eraill weld y gwirionedd.

Mae hyn yn mynd i'r afael â'r duedd ddynol i farnu eraill fel islaw i ni mewn rhyw ffordd, a hynny am bob math o resymau. Yng Nghrist, mae Duw wedi eu dewis hwythau hefyd. Maen nhw'n cael eu cynnwys, gyda ni, fel rhan o'i bobl. Ni allwn osod ffiniau na chodi waliau rhyngom ni. Y rhai hynny y gallem ni gael ein temtio i'w heithrio, eu hanwybyddu a'u gwrthod yw'r union rai y mae Duw yn eu cofleidio a'u croesawu.

Ystyriwch eich pum ffrind, sy'n rhan o hyn. O! na byddai'r Ysbryd yn symud ynddynt fel eu bod yn gallu profi hynny eu hunain.

Mae'r trawsnewidiad yn anhygoel. Daw ein creithiau o gywilydd yn arwyddion o gariad Duw. Wrth i ni weddio heddiw, gadewch i ni addo gweld pawb rydyn ni'n eu cyfarfod drwy lygaid cariadus Duw.



1 PEDR 3:4

⁴ Ond cymeriad cêl y galon a'i degwch didranc, sef ysbryd addfwyn a thawel. Dyna sy'n werthfawr yng ngolwg Duw.

Er y cawn ein siarsio pan fyddwn ni'n ifanc i beidio â barnu llyfr ar sail ei glawr, mae'n rhywbeth rydyn ni'n ei chael yn anodd i'w weithredu. Ond mae'r ysgrythur yn ddiamwys ynghylch peryglon barnu yn ôl yr hyn a welwn; '*Peidiwch â barnu yn ôl yr olwg, ond yn ôl safonau barn gyfiawn*' (Ioan 7:24). Nid yw hynny fawr o syndod – roedd y rhan fwyaf o'r bobl a welodd Crist ar y groes yn gweld dim ond troseddwr, dyn yn dioddef marwolaeth gywilyddus a gwaradwyddus. Y cyfan a welodd y mwyafrif oedd methiant o feseia – gan fethu gweld y gwirionedd anhygoel, Duw yn trechu drygioni er ein mwyn ni. Weithiau dydy pethau ddim yn union fel y maen nhw'n ymddangos ar yr olwg gyntaf.

Ond mae sut mae pethau'n edrych yn bwysig yn ein byd ni. Rydyn ni'n teimlo bod angen rhoi'r fath bwys ar y ffordd rydyn ni'n cyflwyno ein hunain. Mae cynifer ohonom yn teimlo bod yn rhaid i ni esgus, ffitio i mewn, edrych mewn ffordd benodol er mwyn cael ein derbyn. Mae ein canfyddiadau o harddwch yn seiliedig ar brinder; maen nhw'n dymhorol ac yn gyfyngedig; yn achos cymhariaeth a chenfigen, ansicrwydd a diffyg.

Nid dyma sut mae Duw yn ein gwerthfawrogi ni, ac nid dyma sut mae eisiau i ni werthfawrogi ein hunain.

I'r gwrthwyneb, mae rhinweddau 'cymeriad cêl y galon', chwedl Sant Pedr, yn doreithiog ac yn ddiderfyn. Maen nhw'n ein gadael ni'n teimlo'n llawen, yn hytrach na chenfigennus, wedi'n hysbrydoli yn hytrach nag yn ansicr. Ymgais i deimlo'n dda amdanom ni ein hunain yw meithrin harddwch allanol. Mae meithrin harddwch mewnol yn gwneud i eraill deimlo'n dda hefyd.

Isel iawn yw statws cymdeithasol y menywod y mae Pedr yn eu hannerch yn yr adnod hon. Rhaid eu bod wedi cael eu hystyried yn aml fel gwrthrychau, a'u gweld fel rhywbeth i'w 'berchen' yn hytrach nag fel pobl unigol sy'n cael eu gweld a'u caru gan Dduw. Ac eto, mae Pedr yn cydnabod bod ganddynt fywyd mewnol cyfoethog – un sy'n groes i ddisgwyliadau'r cyfnod – bywyd sy'n cael ei fyw nid er mwyn eraill ond er mwyn Iesu. Mae Pedr yn cadarnhau nad dynion na meistri yw'r awdurdod goruchaf, ond yn hytrach y Duw sy'n ein llunio ar ei lun a'i ddelw ef ei hun.

Mae Iesu Grist - ymgawdoliad Duw - yn galw arnom i weld pobl am bwy ydyn nhw mewn gwirionedd. Mae'n alwad i glywed ac adnabod pobl yn iawn, i weithio gydag Ysbryd Duw sy'n dod ar ein traws ac yn blodeuo yn ein heithafion dyfnaf. Yn rhy aml o lawer, rydyn ni'n sôn wrth bobl am yr Iesu heb geisio clywed eu stori hwy yn gyntaf. Yn rhy aml o lawer, rydyn ni'n barnu cyn i ni wybod y gwir. Heddiw, rydyn ni'n myfyrio ar y gwir harddwch y byddwn yn sicr o'i brofi os ydym ni'n ymddiried yn llwyr yng nghariad helaeth Duw, yn hytrach nac yn ein hofn ni ein bod ni'n annigonol. Dim ond Duw all alluogi hyn.



Gadewch i ni wedyn weddio dros ein pum ffrind, y bydd Duw yn cysylltu â hwy, ei Ysbryd Ef â'u hysbryd hwy.

Yr unig beth sy'n dod â phobl at Dduw yw person yr Iesu a gwaith yr Ysbryd. Does dim angen unrhyw beth arall gennym ni, dim ond ein cariad yn gyfnewid.

1 PEDR 3:18

¹⁸ *Oherwydd dioddefodd Crist yntau un waith am byth dros bechodau, y cyfiawn dros yr anghyfiawn, i'ch dwyn chwi at Dduw. Er ei roi i farwolaeth o ran y cnawd, fe'i gwnaed yn fyw o ran yr ysbryd.*

Mae dioddefaint yn rhan anochel o'n bywydau. Mae Pedr yn ysgrifennu at gymunedau sy'n dioddef, pobl sy'n profi caledi sylweddol oherwydd eu ffydd yng Nghrist. Mae Pedr fel petai'n awgrymu bod eu dewrder a'u natur fregus yn ystod eu halltudiaeth nid yn unig yn arwydd o'u ffydd yng Nghrist, ond hefyd yn dilyn patrwm esiampl yr Iesu ar y Groes.

Nid yw bod yn Gristion erioed wedi cynnig dihangfa rhag dioddefaint. Nid yw marwolaeth ac atgyfodiad yr Iesu yn ein heithrio ni rhag profiadau poenus, rhag teimlo'n wrthodedig neu ar goll. Nid yw'n atal pethau drwg rhag digwydd i ni. Fe fyddwn ni'n cael ein hanafu, fe fyddwn ni'n galaru, fe fyddwn ni'n cael ein bychanu. Yn y pen draw, fe fyddwn ni'n marw. Nid yw'r hyn a wnaeth yr Iesu er ein mwyn ni yn gwarantu bywyd di-boen i ni.

Ond yr hyn y mae Ei farwolaeth yn ei wneud yw agor y drws i ni ddeall a phrofi bendith Duw, hyd yn oed – weithiau'n fwyaf dwys ac ingol – yng nghanol dioddefaint. Yr hyn y mae dioddefaint Crist ar y Groes yn ei gynnig yw agosrwydd Duw sy'n ein caru cymaint fel Ei fod yn barod i ddioddef y boen y bu'n rhaid i ni ei dioddef ar ein pen ein hunain cyn hynny. Yr hyn y mae Ei atgyfodiad yn ei addo yw bywyd tragwyddol gyda'r Tad, hyd yn oed drwy gydol realiti ein bywydau bydol.

Y peth mwyaf rhyfeddol yw bod Duw yn dioddef y boen unigryw hon er ein mwyn ni, tra roedden ni'n dal i fod yn elynion iddo. Mae'n barod i farw er ein mwyn ni, er mai ni yw'r rhai a wrthododd Ef. Wrth i ni barhau i weddio heddiw dros y pump hynny sydd eto i droi at yr Iesu, gadewch i ni ddathlu'r ffaith fod Crist eisoes wedi marw er eu mwyn, eisoes yn eu cyfrif fel rhain sy'n cael eu caru, ac yn dymuno bod gyda nhw yn eu poen hefyd. Gweddiwn y gall yr Ysbryd Glân fywiogi eu bywydau.

Yn y darn hwn, mae Pedr yn gosod dioddefaint ar echel gosmig newydd sbon. Mae'r hyn y mae Duw wedi'i wneud i ni yn adleisio o amgylch y bydysawd cyfan, ac eto mae'n canolbwyntio ar un dyn sathredig sydd wedi colli'r cyfan. Yn ddiweddarach, mae Pedr yn ysgrifennu: *'yn ôl maint eich cyfran yn nioddefiadau Crist llawenhewch, er mwyn ichwi allu llawenhau hefyd, a gorfoleddu, pan ddatguddir ei ogoniant ef.'* Nid yw ein dioddefaint yn ddibwys i'r Duw sy'n gwybod yn iawn am ddioddefaint. Ond nid yw'n derfynol ychwaith. Ar yr ochr arall i ddioddefaint mae buddugoliaeth, oherwydd mae'r hyn a ddigwyddodd i'r Iesu yn digwydd i ni – marwolaeth y corff ond cael ein bywiocáu yn yr Ysbryd.

Boed i'ch cydnabod sy'n dioddef heddiw deimlo breichiau Duw yn eu cysuro a'u harwain. Gyda Duw, nid yw dioddefaint byth yn cael y gair olaf.



1 PEDR 4:6

‘I’r diben hwn y pregethwyd yr Efengyl i’r meirw hefyd; er mwyn iddynt – er cael eu barnu yn y cnawd fel y bernir pawb – fyw yn yr ysbryd fel y mae Duw yn byw.

Weithiau, rydyn ni’n peri i’r union bethau rydyn ni fwyaf eisiau eu hosgoi, i ddigwydd. Un peth rydyn ni’n aml yn ei ofni, ac eto’n ei greu i ni ein hunain, yw ymwahaniad. Rydyn ni’n teimlo’n bell oddi wrth y rhai sy’n wahanol i ni, y rhai rydyn ni’n eu hystyried yn ‘eraill’. Rydyn ni’n teimlo ar wahân i’r rhai a aeth o’n blaenau. Weithiau, rydyn ni’n teimlo ar wahân oddi wrth Dduw. Mae rhai pobl sydd, yn ein tyb ni, y tu hwnt i’n cyrraedd. Weithiau, rydyn ni’n teimlo’n gwbl ynysig ein hunain, yn cael ein llethu gan dywyllwch, unigrwydd ac ofn.

Felly, mae gan yr adnod hon neges ddwys iawn i ni. Mae Iesu’n disgyn i’r tywyllwch, i’r manau rydyn ni’n eu hofni fwyaf, i’n tywys ni o farwolaeth ac i mewn i fywyd. Mae’r rhai sy’n cael eu llethu gan dywyllwch yn clywed y Newyddion Da ac yn cael eu dwyn i oleuni gogoneddus Duw. Mae’r rhai sydd wedi marw yn cael byw bywydau newydd, a thystio i wyrthiau Duw.

Mae’n bosibl bod llawer o bobl yn fyw yn gorfforol, ond heb fod yn byw go iawn. Mae yna rai sy’n byw o dan orthrwm amgylchiadau, sefyllfaoedd a phryderon. Mae’r efengyl yn rhoi bywyd newydd i bobl – mae Duw yn troi llwybrau pengaead yn gyffyrdd, gwrthod yn dderbyn, marwolaeth yn fywyd newydd. Mae’n dweud nad oes neb y tu hwnt i waredigaeth. Nid oes pechod nad yw Duw yn ei faddau pan fo’r galon yn edifeiriol. Y rhai rydyn ni’n troi cefn arnynt, y rhai rydyn ni’n eu hystyried y tu hwnt i obaith, nid yw Duw byth yn rhoi’r gorau i chwilio amdanynt. Pan ddeuir o hyd iddynt, mae Duw yn dathlu: *‘Llawenhewch gyda mi; oherwydd yr wyf wedi cael hyd i’m dafad golledig.’* (Luc 15:6).

Mae haelioni Duw yn gorlifo gyda’r fath bŵer fel bod hyd yn oed marwolaeth yn cael ei sgubo ymaith. Er nad ydyn ni’n llawn ddeall sut mae iachawdwriaeth yn gweithio, rydyn ni’n cyfarfod yr un sy’n rhoi bywyd i’r meirw.

Lle mae pobl yn troi ymaith, mae Duw yn croesawu. Lle cawn ein temtio i feirniadu, mae Duw yn ein galw i garu. Pan fydd cnawd yn anochel yn marw, mae’r ysbryd yn byw. Galwad ydyw i fyw yn ôl safonau Duw, yn hytrach na gwywo yn ôl ein safonau ni. Gweddïwch heddiw am eich pum ffrind; efallai y bydd Ysbryd yr un sy’n croesi pob ffin gyda’i neges o gariad yn eu cyrraedd.

Wrth i chi weddio dros eich pum cydnabod heddiw, cofiwch hyn: nid oes neb y tu hwnt i bresenoldeb ac addewid Duw.



1 PEDR 4:14

14 Os gwaradwyddir chwi oherwydd enw Crist, gwyn eich byd, o achos y mae Ysbryd y gogoniant, sef Ysbryd Duw, yn gorffwys arnoch.

Mae gobaith yng nghanol erledigaeth yn thema glir drwy gydol Llythyr Cyntaf Pedr. Mae'n anogaeth ac yn addewid ar yr un pryd – bydd dioddefaint yn ildio i ogoniant. Mae'n gweithio drwy'r gorffennol, y presennol a'r dyfodol: mae'r Iesu wedi goroesi ar y groes, ac wrth ei godi o farw'n fyw, mae Duw ein Tad wedi goresgyn marwolaeth. Mae'r Ysbryd Glân gyda ni yn y fan a'r lle. Bydd Crist yn dychwelyd mewn gogoniant. Mae pob rheswm i fod yn obeithiol.

Yma, mae Pedr yn cymryd rhywbeth sy'n cael ei ystyried i fod yn gywilyddus gan y byd cyfoes – i'r gymuned y mae'n ysgrifennu ati, ac i lawer o bobl ledled y byd heddiw. Bod yn Gristion.

Bu'r Iesu farw wrth gael ei wawdio, ei sarhau a'i gystwyo. Bu farw mewn cywilydd. Ac eto, dyma'r hyn y cafodd Ei eni i'w wneud, yr awr y daeth Ef ar ei chyfer. Oherwydd mae'r farwolaeth hon yn datgelu gogoniant Duw. Gogoniant Duw yn amlwg drwy waradwydd Crist, wrth i Dduw ysgwyddo ein pechod a rhannu ein poen. Gogoniant Duw yw sut mae'n ein caru ni. Mae'r farwolaeth gywilyddus hon yn trawsnewid cywilydd i fod yn fuddugoliaeth, diffyg sancteiddrwydd yn sancteiddrwydd.

Nid yw bywyd fel Cristion yn ddioddefaint i gyd. Mae'n ymwneud â phrofi'r llawenydd a ddaw yn sgil sicrwydd y gobaith, hyd yn oed ar yr adegau mwyaf tywyll. Addewid byd lle bydd popeth yn cael ei adnewyddu un diwrnod.

Pan fydd pobl yn gweld y gobaith hwnnw'n cael ei fyw, mae pethau anhygoel yn gallu digwydd. Mae'r Duw byw yn rhoi gobaith byw i bobl.

Wrth i ni fyw fel Cristnogion rydyn ni'n profi bendithion Duw, hyd yn oed wrth i ni fod yn ymwybodol o ddioddefaint dynolryw. Mae Sant Paul yn sôn amdanom yn rhannu Ei ddioddefaint, fel y gallwn gyrraedd ei ogoniant. Dyfnder y gogoniant sydd i'w weld yn y mannau annisgwyl, yn y corneli tywyllaf, yn y rhai hynny sy'n cael eu gwrthod a'u cam-drin. Mae'n ymwneud â gwybod bod Duw yn ein hystyried yn werth marw er ein mwyn, ac nad oes modd i unrhyw brofiad o ddioddefaint neu dristwch oresgyn gallu Duw i ddod â bywyd.

Dyma waith yr Ysbryd Glân. Beth bynnag sy'n ein llethu, mae'r weddi 'Tyrd, Ysbryd Glân' yn newid pethau. Gweddïwch yn fwyaf arbennig y bydd gwaith yr Ysbryd Glân yn eich pum ffrind yn eu galluogi i brofi gogoniant drwy ddioddefaint Crist.

Yn harddwch, godidogrwydd a llawenydd ein bywydau, yn ogystal â'r dioddefaint a'r boen, y mae gogoniant Duw a ddaw eto.

Boed i Ysbryd y Gogoniant fod gyda chi, a'r rhai rydych yn gweddïo drostynt, heddiw a hyd byth.



Darluniau gan Anna Heslop.
Dilynwch Anna ar Instagram  miss_print_19

thykingdomcome.global



THE INTERNATIONAL BIBLE SOCIETY

 CHURCH HOUSE
PUBLISHING

